Eisiau cymorth ariannol wrth ddysgu Cymraeg?

Mae cymorth ar gael drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

I fod yn gymwys, mae angen i chi:

- ✓ **fod wedi cofrestru ar gwrs Dysgu Cymraeg gydag un o Ddarparwyr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol,**
- ✓ **fod yn 16 mlwydd oed neu hŷn ar 31 Awst 2023,**
- ✓ **fod yn breswylydd sefydlog, cyfreithiol, yn y DU, a hynny ers o leiaf 3 blynedd; neu gwrdd â'r amodau preswylio yn y Canllaw Cymhwysedd Dysgwyr ar gyfer cyllid ôl-16 (manylion yn y polisi ar y wefan),**
- ✓ **gadarnhau y basai'n anodd cael mynediad i'ch astudiaethau heb gymorth gan y Gronfa achos fod ystyriaethau ariannol yn rhwystr, e.e. dych chi ar incwm isel.**

Mae'n bosib gwneud cais i helpu gyda chostau fel:

	Disgrifiad	Tystiolaeth sydd angen ei gynnwys gyda'r cais	Uchafswm Dyfarniad
Adnoddau - Cyfarpar / deunyddiau dysgu	Adnoddau hanfodol ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau dosbarth, megis llyfrau, dyfeisiadau digidol, mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer dosbarthiadau rhithiol	Derbynneb(au) yn nodi'r adnodd(au) a'r symiau	£200 mewn blwyddyn academaidd
Costau Teithio - Milltiroedd	Gellir hawlio £0.25 y filltir am y siwrnai ddwyffordd i fynychu gwers/sesiwn (hyd at 60 milltir fesul gwers/sesiwn)	Llenwi'r Ffurflen Gostau Teithio gyda dyddiadau'r siwrneiau a manylion y daith	£15 y wers/ sesiwn (£0.25 x 60 milltir)
Costau Teithio - Bws / Trên	Cost siwrnai i fynychu gwers/sesiwn	Copïau o'r tocynnau parcio, sy'n cynnwys y dyddiad a'r symiau	£15 y wers/ sesiwn
Costau Parcio	Cost Parcio wrth fynychu gwers/sesiwn	Copïau o'r tocynnau parcio, sy'n cynnwys y dyddiad a'r symiau	£5 y wers/ sesiwn
Ffi Arholiad	Ffi Arholiad	Derbynneb gan eich darparwr yn cadarnhau eich bod wedi talu am arholiad (gan nodi'r swm)	Dibynnol ar yr arholiad (£20 - £32)
Gofal Plant	Gellir hawlio hyd at £5 yr awr am hyd at 3.5 awr am gost gofal plant pob gwers / sesiwn	Derbynneb gan ofalwr cofrestredig AGC (gan nodi eu rhif cofrestredig). Manylion nifer y gwersi/ sesiynau.	£17.50 y plentyn pob gwers/sesiwn (3.5 awr x £5 yr awr)
Anableddau	Hyd at £10 y wers/ sesiwn i helpu gyda chostau ychwanegol oherwydd anableddau	Llythyr swyddogol yn darparu tystiolaeth	£10 y wers/ sesiwn

Noder nad oes modd gwneud cais am ffi y cwrs

Am fwy o fanylion, ewch i'n gwefan:

https://dysgucymraeg.cymru/cymorth/cronfa-ariannol/

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh
Llywodraeth Cymru Welsh Government
CYMRAEG Dysgu Learn